COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mehefin 12fed, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd), Angharad Correia-Martins, G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, Alun Jones, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cynghorwyr John B. Hughes a Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fai 8fed, 2019 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Anfonwyd sylwadau'r Is-bwyllgor Cynllunio (Cadeirydd, Is-gadeirydd ac aelod o bob Ward) ar y pum cais cyntaf cyn y cyfarfod.

C19/0394/39/LL	Estyniad deulawr gromen ochr - 25 Tan y Gaer, Aber-soch **- Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad o fyngalo a fuasai'n goredrych a chreu cynsail i eraill yn y stad**
C19/0404/39/LL	**Cynllun Diwygiedig –** Estyniad ochr a chefn, ffenestri gromen a tho – Gwyndy, Cilan - **Gwrthwynebir oherwydd nad yw'n gweddu â'r tai o'i amgylch. Derbyniwyd dyfarniad y caniatawyd ef ag amodau erbyn hyn**
C19/0405/39/LL	**Cynllun Diwygiedig –** Modurdy a storfa at ochr y tŷ – 4 Cae Du, Aber-soch - **Cefnogir ar yr amod mai modurdy a storfa'n unig fyddan nhw. Mynegwyd hefyd y gosodwyd amod ar y byngalos na ddylid adeiladu modurdy wrth eu gwerthu'n ôl yn y chwedegau**
C19/0431/39/LL	Estyniad cefn – Hafod, Mynytho **– Cefnogir, gan nad yw'n effeithio ar neb**
C19/0451/39/LL	Estyniad llawr cyntaf **–** Trem y Borth, Bwlchtocyn **– Cefnogir**
C19/0450/39/LL	Cyfnewid to fflat am un brig llechi, ynghyd ag adeiladu estyniad deulawr i'r ochr – Pendalar, Lôn Wilis, Mynytho **– Cefnogir**
C19/0482/39/LL	Modurdy a storfa **–** Gwynfa, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Cefnogir ar yr amod mai modurdy'n unig fydd o ac na chaiff ei werthu ar wahân**

C19/0519/39/LL Adeiladu tŷ annedd (dyluniad diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd yng nghais 2/19/69A – Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a fuasai'n gorlenwi safle cyfyng amlwg mewn AHNE a thynnu sylw o bob ffordd fynediad i mewn i'r pentref. Mae'n ddyluniad anaddas sydd gryn dipyn uwch (tri llawr o gymharu ag un) na'r dyluniad a ganiatawyd yn wreiddiol – buasai'n rhaid cloddio'n ddwfn i'r graig ar gyfer ei sylfeini. Mynegwyd, hefyd, bod gormod o wydr ynddo a fuasai'n amharu ar breifatrwydd cymdogion**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Cytundeb***
Derbyniwyd dau gopi o'r cytundeb ar gyfer cyfrannu at gynnal y pedwar toiled yn y gymuned am y ddwy flynedd nesaf ond, talu blwyddyn ar y tro. Anfonir yr anfoneb am y cyfraniad unwaith y dychwelir y cytundeb; penderfynwyd ei harwyddo.

ii) ***Treth Toiledau Lôn Traeth***
Yn dilyn holi pam talwyd treth ar y toiledau yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor cafwyd sgwrs â'r Rheolwr Trethi. Eglurodd y buasai'n rhaid sefydlu cwmni CIC (Community Interest Company), sef cwmni dielw, hyd fraich debyg i Bartneriaeth Ogwen â chyfansoddiad. Ni fuasai'n gallu praeseptu ond, cael nawdd. Ni chafwyd cyfle i holi swyddogion Partneriaeth Ogwen. Trefnir cyfarfod o'r Is-bwyllgor Ariannol i drafod sefydlu cwmni dielw.

iii) ***Clo Drws y Dynion***
Derbyniwyd e-bost oddi wrth Adran Priffyrdd a galwad ffôn oddi wrth ymwelydd a 'achubodd' ddyn oedrannus a fu'n gaeth yn nhoiled y dynion am tua hanner awr. Deallwyd fod y clo wedi torri a chyn cysylltu â'r cwmni am ddarn, fe'i weldiwyd gan fab Cyng. W.B. Williams – diolchwyd iddo unwaith yn rhagor am ei gymwynas; mae'n gweithio hyd yn hyn.

b) **11. Gohebiaeth: b) Arloesi Gwynedd Wledig – Newyddlen mis Ebrill**
Ni lwyddwyd holi am y system codi ffi 'di-arian' (*contactless)* yn nhoiledau cymunedol Llanberis.

c) **11. Gohebiaeth: c) Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros**
Cynhaliwyd cyfarfod, ar gais y perchennog i drafod cwynion trigolion lleol am yr uchod, a fynychwyd gan y ddau Aelod Lleol. Cynhelir ymchwiliad gan yr Adrannau Gwarchod y Cyhoedd a Chynllunio a disgwylir adroddiad ar ôl Mehefin 19eg. Penderfynwyd anfon pryderon y Cyngor hwn.

ch) **11. Gohebiaeth: d) Wyn Williams – Menter Iaith**
Mynychodd tua dwsin o bobl y cyfarfod ond, nid y rhai mwyaf angenrheidiol, sef yr ieuenctid. Er hynny, cafwyd cyfarfod buddiol ag Ifan Llewelyn, Swyddog Hunan*iaith.* Mynegwyd mai ceisio pontio'r iaith Gymraeg rhwng y trigolion lleol a'r mewnfudwyr yw'r bwriad. Anfonir adroddiad o'r hyn a drafodwyd a'r sylwadau a gasglwyd at bawb a fynychodd maes o law, gan obeithio y gellir trefnu digwyddiad ar y cyd yn y dyfodol - awgrymwyd at fis Medi.

6. **MYNWENT**

a) **Prisiau Claddu Newydd**
Derbyniwyd ymateb amrywiol oddi wrth Glercod eraill ac, o ganlyniad, penderfynwyd cynnal cyfarfod o'r Is-bwyllgor i'w trafod yn iawn.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd**

i) ***Cae Aber-soch – Prisiau Goliau***
Ni dderbyniwyd prisiau am goliau newydd ond, cafwyd gwybodaeth gan ddau gwmni ar y we (Newitt & Co. Ltd. – £880.42; Net World Sports – tua £700.00). Cysylltodd un o'r contractwyr i ddweud na allai wneud y gwaith ac awgrymodd gysylltu â Mona Steel – disgwylir pris.

ii) ***Trac Beicio Mynytho***
Cwblhawyd y gwaith a derbyniwyd yr anfoneb oddi wrth Caloo (gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Adroddwyd ei fod yn hynod boblogaidd, yn arbennig cyn i'r ysgol ddechrau – tua dwsin ar y tro. Penderfynwyd cynnal lansiad arbennig. Mae angen symud y goliau hefyd.

b) **Archwilio Coed yr Allt a Chae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd amcanbris o bum can punt i dorri'r coed oddi wrth Adam Wildewood – penderfynwyd ei dderbyn.

c) **Paentio'r Offer**
Gwelwyd y contractwr yn paentio'r offer sglefrfyrddio yng Nghae Chwarae Aber-soch yn ddiweddar.

ch) **Archwiliad Iechyd a Diogelwch**
Derbyniwyd hysbysiad o'r uchod – £45.00 y cae; penderfynwyd ei dderbyn.

d) **Gwerthu Ceir ar Lain y Pentref**
Anfonwyd llythyr yn cynnwys lluniau o'r ceir at y gwerthwr yn gofyn iddo eu symud erbyn heddiw neu trefnai'r Cyngor wneud hynny a byddai'n rhaid iddo dalu'r gost. Derbyniwyd galwad ffôn ac e-bost oddi wrtho yn dweud nad ef oedd perchennog y cwbl sydd ar werth ac y cysyllta â'i gyfreithiwr. Cyn eu symud, gofynna, hefyd, am gopi o'r Is-ddeddf sy'n ei atal rhag gwneud hynny. Ychwanega, pe cyffyrddid/symudid y ceir oddi yno heb ei ganiatâd, deil y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddifrod i'w eiddo. Anfonir copi o Adran 34 Deddf Trafnidiaeth Ffordd 1988 a Deddf Llywodraeth Leol 1972 ato er gwybodaeth. Cysylltir â'r Heddlu hefyd.

8. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad Ariannol Mewnol ac Allanol 2018 – 2019**
Casglwyd y ddogfennaeth a archwiliwyd yn fewnol o Swyddfeydd Dwyfor pnawn 'ma ac er bod popeth yn iawn, mynegodd y Clerc ei hanfodlonrwydd â phwynt 3. Barn yr Archwiliad yn yr Adroddiad, sef:

"...ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru – methiant i:

- gynnwys manylion ei aelodau ar y wefan
- gyhoeddi cofrestr o fuddiannau aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig ar y wefan".

Mae'r cwbl ar y wefan; ysgrifennir at yr Archwilwyr i fynegi hyn a gofyn am adroddiad arall. Derbyniwyd y cyfrifon ac arwyddodd y Cadeirydd a'r Clerc y ffurflen fel y gellir ei hanfon i BDO cyn dyddiad yr archwiliad, sef Gorffennaf yr ail.

b) **Penodi Archwiliwr Mewnol 2019 – 2020**
Penderfynwyd gwahodd Adran Archwilio Cyngor Gwynedd fod yn Archwiliwr Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol – anfonir llythyr, yn unol â'r gofyn statudol.

c) **Meinciau Sarn Bach a Bwlchtocyn**
- Penderfynwyd archebu'r meinciau ar gyfer Sarn Bach a Bwlchtocyn ar ôl derbyn gohebiaeth mai yn Aber-soch ei hun y dymunai'r wraig osod un er cof am ei mam.
- Derbyniwyd gwybodaeth am y meinciau solar – nid ydynt yn rhad; penderfynwyd y byddai'r Is-bwyllgor Ariannol yn eu trafod.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiadau eraill ond, derbyniwyd e-bost heddiw yn hysbysu y trefnwyd gorfodaeth ar 4 Cae Du, Aber-soch, am osod tanc nwy yn y ddaear heb ganiatâd.

b) **Cytiau Glan y Môr**
Nis anfonwyd y llythyr i fynegi pryder am yr uchod - ychwanegir sylwadau ato. Gwelwyd ar Dilyn a Darganfod heddiw y caniatawyd Diwygiad Ansylweddol i ganiatâd cynllunio cwt glan môr Marchros, sef cynyddu uchder, gosod ffenestri a diwygio'r drws – mynegwyd pryder am hyn gan y gallai ymdebygu i dŷ, yn arbennig gan y saif ar ei ben ei hun a chreu cynsail i weddill y cytiau.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Bin Baw Ci ym Marchros**
i) Ail-anfonwyd y cais yn gofyn i'r Adain Fwrdeistrefol osod bin newydd/ychwanegol yn y maes parcio, gan mai dim ond un o rai'r Cyngor hwn sy'n weddill ac mae tri ohonynt gerllaw.
ii) Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cyng. John B. Hughes drannoeth penwythnos y Sulgwyn yn nodi y derbyniwyd cwynion am gyflwr y biniau baw cŵn yn y gymuned ac, o ganlyniad, trosglwyddwyd hwy i Alw Gwynedd. Mae cryn oedi cyn eu gwagio; penderfynwyd cysylltu i fynegi hynny.

b) **Cais am Olau Stryd yn Stad Sant Tudwal, Mynytho**
Gosodwyd y golau erbyn hyn a derbyniwyd yr anfoneb – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

c) **Parcio Dros Nos ar Lôn Pen Cei, Aber-soch, a Maes Parcio Porth Neigwl**
Anfonwyd y pryder am yr uchod.

ch) **Rhybuddion Cau Strydoedd yn Aber-soch**
Derbyniwyd copi o'r uchod ar gyfer ras 10K Aber-soch ar Fehefin 1af a chau Stryd Fawr, Aber-soch, ar gyfer gwaith tu allan i 'Jack Wills' ar Fehefin 3ydd. Cysylltwyd â Thrafnidiaeth a'r Adran Gyfreithiol i'w hysbysu o'r siop siafins a achoswyd pan osodwyd yr arwyddion 'ffordd ar gau' ger giât Capel yr Annibynwyr yn hytrach nag ar Lôn Pont Morgan ar yr olaf. O ganlyniad, deuai'r drafnidiaeth i gyd i'r sgwâr a gorfod troi'n ôl i wyneb eraill. Bwriadai'r Adran Gyfreithiol gysylltu â'r contractwr i'w hysbysu o'r trafferthion a grëwyd.

d) **Rhaglen Waith mis Mehefin**
Ail-wynebu (*microashpalt*) o Lôn Pont Forgan trwy 30 m.y.a. Aber-soch â'r gwaith i ddechrau tua Mehefin 26ain.

dd) **Problemau Parcio ar Lôn Golff, Aber-soch**
Anfonwyd cwynion a dderbyniwyd (a'r Adran Gynllunio) am faniau a pheiriannau'r contractwyr sy'n gweithio ym Mhen Môr. Atebwyd mai mater i'r Heddlu ydyw os yw'n achosi rhwystr ar ffordd.

10. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) **Torri'r Llwybrau**
i) O'r diwedd, ymatebodd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, ar ôl blwyddyn a mwy o ofyn, i'r cynnig o ymweld ag o ym Mhwllheli i drafod ail-gategoreiddio'r llwybrau. Mae'n ddigon parod cyfarfod yr Is-bwyllgor a gofynna am gael gweld y rhestr ymlaen llaw – anfonwyd honno ato flwyddyn a mwy'n ôl...
ii) Derbyniwyd tri thendr a phenderfynwyd derbyn pris cyntaf un o'r contractwyr am dorri llwybrau Aber-soch, Bwlchtocyn, Cilan, Sarn Bach a Llanengan a'r llall am dorri llwybrau Llangian a Mynytho. Cysylltir â hwy i'w hysbysu y cânt ddechrau eu torri cyn gynted â phosibl, gan fod cryn dyfiant o ganlyniad i'r tywydd gwlyb diweddar.

b) **Llwybr y Morwyr (Rhif 42 a 51)**
Derbyniwyd ateb oddi wrth DWO a noda na chafodd gyfle ymweld â'r safle er nodi y gwnâi hynny ar Chwefror 12fed. Amheua y newidiodd cwrs dŵr ar ôl tywydd sych llynedd. Ychwanega bod sawl lleoliad gwlyb arall i gyfeiriad Aber-soch ac, felly, bydd angen ychydig o waith ar hyd y llwybr.

c) **Torri Coed ar Lwybr Ceffyl ger Penfôr, Bwlchtocyn**
Ymatebodd DWO i'r uchod ac ategu'r hyn a ddeallwyd eisoes mai Gwynedd a dorrodd y bolardiau er mwyn cael mynediad at dorri'r coed a'u gwaredu â *chiper*. Dychwelir yno i asesu'r ffordd orau o waredu'r dŵr sy'n amlwg yn creu problemau. Er y gŵyr beth sydd angen ei wneud mae'n ddigon bodlon gwrando ar fewnbwn y Cyngor.

11. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Arolwg Model Brotocol ar Gyfer Datrysiadau Anffurfiol***
Arolwg ar y cyd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i wirio faint o gynghorau a fabwysiadodd a defnyddio'r uchod - Mehefin 30ain yw'r

dyddiad cau. Fe'i mabwysiadwyd ar Fehefin 14eg, 2017 ond, ni fu'n rhaid ei ddefnyddio hyd yma.

ii) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Cynhelir yr uchod yng Nghaernarfon, nos Fercher, Mehefin 19eg – ymddiheurir ar ran y Cadeirydd a'r Clerc.

iii) ***Cynhadledd Arfer Arloesol***
Rhaglen yr uchod a gynhelir ar Faes y Sioe Amaethyddol, Llanelwedd, ar Orffennaf 10fed – neb am fynd.

iv) ***Modylau Dysgu Ar-lein Sylfaenol***
Gwybodaeth bod saith o'r uchod ar gael ar wefan ULlC i'w defnyddio gan bob cynghorydd yng Nghymru. Y meysydd a drafodir yw: Còd Ymddygiad, Y Cyngor yn Gyflogydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Iechyd a Diogelwch, Sesiwn Gynefino, Cyllid Llywodraeth Leol a Deall y Gyfraith.
[Nodir yng nghofnodion cyfarfod olaf y Pwyllgor Ardal mai tri o'r 46 cynnig a fwriada'r Llywodraeth eu gweithredu o Adroddiad y Panel Annibynnol ar ddyfodol y Cynghorau Tref a Chymuned yn y tymor byr, sef: a) hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr; b) yr angen o baratoi adroddiad blynyddol a c) chyflwyno grym cymhwysedd cyffredinol i gynghorau ac y cyflwynir hwy mewn Bil Llywodraeth Leol yn ystod yr haf.]

v) ***Cymru ein Dyfodol – Sgwrs Genedlaethol***
Gwahoddiad i fod yn rhan o'r digwyddiad uchod yn Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor nos Fawrth, Mehefin 18fed i baratoi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 – neb am fynd.

b) **Adran Addysg – Panel Apêl Mynediad a Phanel Apêl Gwaharddiad Disgyblion**
Gwahoddiad i gynrychioli ar y paneli uchod – neb â diddordeb.

c) **O Ddrws i Ddrws – Poster Ariannu**
Derbyniwyd copi o'r poster i hysbysebu'r gwasanaeth a ariannwyd gan y Cyngor. Adroddwyd y deallwyd bod rhaid talu ugain punt cyn defnyddio'r gwasanaeth megis fel bod yn 'ffrind' i'r elusen; holir ymhellach. Dosberthir y poster o amgylch y siopau ac ymysg trigolion a allai wneud defnydd o'r gwasanaeth.

13. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C19/0252/39/MG	Materion a gadwyd yn ôl i adeiladu tŷ **–** Tir ger Berthwen, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0256/39/LL	Dymchwel modurdy ac adeiladu un newydd ag ystafell chwarae uwchben – Pen Môr, Lôn Golff, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C19/0275/39/LL	Cwt glan môr (dyluniad diwygiedig i Ganiatâd C18/1049/39/LL) – Cwt Glan Môr Marchros **– Gwrthodwyd**
C19/0284/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le **-** Tlysfan, Bwlchtocyn - **Gwrthodwyd**
C19/0303/39/LL	Diwygio Amodau 2 (yn unol â'r cynlluniau) ac 8 (cynllun tirlunio) ar Ganiatâd Cynllunio C13/1255/39/LL er mwyn rheoleiddio gwaith nad yw'n unol â'r cynlluniau a ganiatawyd **–** Pant Gwyn Farm Caravan Park, Sarn Bach – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0333/39/LL	Dymchwel estyniad, modurdy a siale presennol a chodi estyniad deulawr cefn a modurdy ar wahân **–** Heulwen, Llangian – **Caniatawyd ag amodau**

C19/0404/39/LL Cynllun Diwygiedig – Estyniad ochr a chefn, ffenestri gromen a tho **–** Gwyndy, Cilan – **Caniatawyd ag amodau**

14. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Mehefin (Rh/S 002237) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Caloo Ltd. – £19842.00 (Rh/S 002234 – Trac Beicio Cae Chwarae Mynytho)
b) E-on – £9.15 (D/U – Trydan y Toiledau)
c) Cymdeithas Llanw Llŷn – £18.00 (Rh/S 002235 – Hysbyseb Tendr Torri'r Llwybrau)
ch) Cyngor Gwynedd – £1360.80 (Rh/S 002236 – Gosod Golau Stryd ym Mynytho)
d) Casglwr Trethi – £26.20 (Rh/S 002238 – Talu Wrth Ennill)

Derbyniadau
a) Toiledau – £207.70 (Tâl Mynediad – £22.60, £28.70, £48.50, £44.60, £37.40, £25.90)

15. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Gorffennaf 17eg, 2019 am saith o'r gloch.